Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Abererch
# Abererch
# Pwllheli
# Gwynedd
# LL53 6YU

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Gymraeg i Saesneg)**

**© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 19/07/2012**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Abererch, sydd wedi ei lleoli ym mhentref bychan Abererch, ger Pwllheli yng Ngwynedd yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig o amgylch. Yn ogystal, daw tua chwarter y disgyblion o ardaloedd y tu allan i ddalgylch yr ysgol.

Ystyrir y disgyblion a ddaw i'r ysgol fel rhai o gefndiroedd sydd heb fod yn freintiedig nac ychwaith yn ddifreintiedig. Daw tua hanner ohonynt o aelwydydd Cymraeg. Nid oes disgyblion o gefndir lleiafrifol ethnig yn yr ysgol.

Derbynnir plant i'r ysgol, yn rhan amser i'r dosbarth meithrin, yn y mis Medi yn dilyn eu pen blwydd yn dair oed, ac yn llawn amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen blwydd yn bedair oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 53 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol. Fe'u haddysgir, yn bennaf yn y Gymraeg, gan ddwy athrawes amser llawn a dwy athrawes ran amser.

Mae'r ganran o ddisgyblion (12%) sydd â'r hawl i dderbyn cinio ysgol yn ddi-dâl yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Gwynedd a Chymru. Mae 13 (25%) o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, gyda phedwar (7%) ar ddatganiad. Mae'r ffigurau hyn yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym Mawrth 2012. Bu yng ngofal yr ysgol ers Gorffennaf 2011.

Mae'r gyllideb ysgol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Abererch yn 2011-2012 yn £3,400. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £7,732 a'r lleiafswm yw £2,745. Mae Ysgol Gynradd Abererch yn 52fed allan o'r 102 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad Ysgol Abererch yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- lefelau cymhelliant bron bob un ohonynt yn uchel;
- ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog sydd yn ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion;
- darpariaeth effeithiol i hyrwyddo lles ac ethos cynhwysol, cartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel;
- elfen o ragoriaeth yn y modd mae'r staff yn darparu ar gyfer disgyblion gydag anghenion dwys; a
- cydweithio'n hwylus ac effeithiol yr holl staff ac ystod o bartneriaethau yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel sydd wedi cael eu cyfleu'n llwyddiannus i'r staff, y disgyblion, y llywodraethwyr a'r rhieni;
- blaenoriaethau priodol wedi eu sefydlu sydd yn rhoi sylw amlwg i wella safonau;
- tystiolaeth glir o welliant mewn meysydd pwysig mewn amser byr; a bod
- y corff llywodraethol yn gefnogol ac yn ymwybodol o'r modd y mae'r ysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion tebyg.

## Argymhellion

Dylai'r ysgol:

A1 sicrhau bod mwy o ddisgyblion yn cyflawni ar y lefelau uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2;

A2 godi safonau ysgrifennu yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2;

A3 sicrhau bod cynllunio'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2 yn cwrdd ag anghenion pob disgybl;

A4 darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain; a

A5 sicrhau bod targedau yn y cynllun datblygu ysgol yn benodol a mesuradwy.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro gweithrediad y cynllun ac yn adrodd i Estyn ar y cynnydd.

# Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn y Cyfnod Sylfaen yn 2011, cyflawnodd pob disgybl y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Dros gyfnod o bedair blynedd, heblaw am 2011, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y tri phwnc wedi bod yn is na ffigurau Cymru a'r teulu o ysgolion tebyg. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, roedd perfformiad yr ysgol yn 2011 ymhlith y 25% uchaf yng Nghymru. Roedd ymhlith y 25% isaf yn y tair blynedd flaenorol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r canran disgyblion 11 mlwydd oed sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad wedi amrywio dros gyfnod o bedair blynedd. Roedd yn uwch na ysgolion y teulu a chyfartaledd Cymru mewn dwy o'r blynyddoedd hynny ac yn is yn ddwy arall. Yn 2011, roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl. Roedd ymhlith y 50% uchaf yn y tair blynedd flaenorol ac yn y 25% uchaf mewn dwy ohonynt.

Yn y ddau gyfnod allweddol mae canran y disgyblion sy'n cyflawni ar y lefel uwch, wedi amrywio dros y pedair blynedd ddiwethaf ond yn tueddu i fod yn is na ysgolion y teulu a chyfartaledd Cymru.

Mewn gwersi a thros gyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u gallu a'u perfformiad blaenorol. Fe welir y cynnydd da hwn yng nghyflawniad disgyblion yn eu gwaith, eu llyfrau ac mewn gwersi. Maent yn dwyn i gof dysgu blaenorol yn dda ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn maent wedi'i ddysgu mewn sawl pwnc. Mae'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da yn unol â'u hoed a gallu. Mewn rhai agweddau ar eu gwaith, nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent. Nid oes patrwm arwyddocaol o ran gwahaniaethau rhwng cyflawniad merched a bechgyn.

Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n dda ar eu hathrawon ac yn barod iawn i gynnig atebion neu sylwadau wrth siarad am eu gwaith. Maent yn gwneud cynnydd da yn eu defnydd o'r Gymraeg o'r amser maent yn dechrau yn yr ysgol. Maent yn datblygu ystod eang o eirfa briodol a'i defnyddio'n glir a chywir wrth siarad am eu gwaith. Mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu'n rhydd ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn defnyddio'r ddwy iaith yn rhugl ac effeithiol i drin a thrafod yn hyderus amrywiol bynciau.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen yn y Gymraeg. Yn y Cyfnod Sylfaen mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen testunau syml yn gynyddol hyderus a chywir gan ddefnyddio strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae bron pob un yn darllen

yn hyderus i wahanol ddibenion, gan gynnwys chwilio am wybodaeth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn darllen yn gywir ac yn ystyrlon yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r goreuon yn darllen ar goedd gyda mynegiant clir. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn defnyddio eu medrau darllen yn effeithiol i gywain a chyflwyno gwybodaeth gan ddefnyddio eu medrau trawsieithu'n gelfydd i gyflwyno'r wybodaeth.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ysgrifennu'n annibynnol. Defnyddiant eirfa ac ymadroddion cynyddol, gan ddechrau amrywio brawddegau a defnyddio atalnodi'n gywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ysgrifennu i sawl pwrpas. Erbyn diwedd y cyfnod mae eu gwaith yn dangos ymwybyddiaeth dda o nodweddion ffurfiau gwahanol o ysgrifennu. Defnyddiant eu medrau ysgrifennu yn effeithiol mewn pynciau eraill, gan wneud defnydd cynyddol o dermau arbenigol. Mae gwaith llawer o'r disgyblion hŷn yn dangos safonau da o ran cywirdeb iaith yn y Gymraeg. Fodd bynnag lleiafrif sy'n ysgrifennu yn Saesneg gyda'r un cywirdeb, yn bennaf oherwydd gwallau sillafu. Prin yw'r enghreifftiau o waith estynedig yn y ddwy iaith.

**Lles: Da**

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth dda o'r angen i fagu arferion personol iach gan gynnwys ffitrwydd. Maent yn teimlo'n ddiogel a hapus yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor.

Mae lefelau cymhelliant bron bob un o'r disgyblion yn uchel. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd yn eu gwersi a'u gweithgareddau. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae medrau disgyblion cyfnod allweddol 2 i wella eu dysgu eu hunain. Ychydig sydd â'r hyder a'r gallu i asesu eu gwaith eu hunain.

Mae'r holl ddisgyblion yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd ac mae safonau ymddygiad yn uchel. Mae disgyblion o bob oed yn cyd-chwarae'n hapus amser egwyl a chinio. Maent yn dangos aeddfedrwydd a gofal wrth ymdrin â phlant eraill.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae lefelau presenoldeb wedi bod yn is na rhai ysgolion tebyg. Mae'r camau cadarn gymerwyd yn ddiweddar i godi canrannau presenoldeb a sicrhau prydlondeb wedi llwyddo. Bellach mae cyfraddau presenoldeb dros 95% ac mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae llais y disgybl yn cael lle amlwg yng ngweithgareddau a phenderfyniadau'r ysgol. Mae'r aelodau cyngor yr ysgol yn frwdfrydig a chaiff safbwyntiau a syniadau disgyblion eu hystyried o ddifrif. Mae'r achrediad diweddar gan asiantaeth allanol 'Clywed' yn cadarnhau fod hon yn nodwedd gref o'r ysgol.

Trwy ystod o weithgareddau, y tu mewn a thu allan i'r ysgol, mae disgyblion yn datblygu amrediad da o fedrau cymdeithasol a bywyd. Maent yn meithrin dealltwriaeth dda o ddinasyddiaeth fyd eang. Enghraifft dda o hyn yw eu hymroddiad i hyrwyddo agweddau o'r fasnach deg.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda. Mae'r profiadau dysgu yn y Cyfnod Sylfaen yn cynnig gweithgareddau ysgogol a heriol i'r holl ddisgyblion sy'n sicrhau cynnydd cyson ac amlwg. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r profiadau dysgu diddorol yn ymdrin yn briodol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r disgyblion. Er hyn, nid yw'r cynlluniau gwaith yn cynnig digon o arweiniad i sicrhau dilyniant a pharhad ym mhrofiadau dysgu'r holl ddisgyblion, yn enwedig rhai o allu uwch.

Mae cynllunio ar gyfer y medrau yn cael lle amlwg ar draws yr ysgol. Rhoddir pwyslais clir ac effeithiol ar feithrin medrau siarad, trafod a mynegi barn disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus ond nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yr un mor effeithiol. Mae'r athrawon wedi dechrau ymgorffori gweithgareddau yn y cynlluniau gwaith sy'n ysgogi'r disgyblion i feddwl a datblygu eu medrau dysgu annibynnol.

Mae holl staff yr ysgol yn modelu iaith safonol yn effeithiol iawn. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar fedrau llafar disgyblion. Mae'r ysgol hefyd yn darparu ystod dda o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am eu hardal leol ac am gelf, cerddoriaeth a diwylliant Cymru.

Trwy hyrwyddo cynlluniau fel Masnach Deg yn llwyddiannus, mae'r ysgol yn datblygu'n effeithiol, ymwybyddiaeth y disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae perthynas waith dda rhwng staff a'r disgyblion ym mhob dosbarth ac mae'r oedolion yn creu ethos gweithgar a chynhaliol. Defnyddir canmoliaeth yn gyson i annog y disgyblion llai hyderus.

Yn y rhan fwyaf o'r gwersi, mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o ystod o ddulliau addysgu ac yn sicrhau fod disgyblion yn ymwybodol o fwriad y wers. Maent yn defnyddio ystod dda o adnoddau ac yn rhoi sylw priodol i ddatblygu'r medrau allweddol. Mae gan athrawon ddealltwriaeth dda o'r cwricwlwm ac maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir. Mae cyflymder bwriadus a holi mentrus yn ymestyn dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion yn effeithiol. Yn yr ychydig wersi ag elfennau rhagorol, hybir disgyblion y Cyfnod Sylfaen i drafod gydag aeddfedrwydd materion sensitif mewn awyrgylch cynhaliol. Yn yr ychydig wersi lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, nid yw'r tasgau dysgu yn cynnig digon o her i'r ystod oedran a gallu yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r athrawon yn cynnig adborth cynhaliol yn ystod gwersi ac mae gwaith ysgrifenedig yn cael ei farcio yn rheolaidd. Nid yw'r sylwadau bob amser yn nodi'n glir yr hyn sydd angen i ddisgyblion wneud er mwyn gwella.

Mae system effeithiol o dracio cynnydd yn y Cyfnod Sylfaen. Yn ddiweddar sefydlwyd trefniadau priodol ar gyfer asesu cynnydd disgyblion ar draws yr ysgol, sy'n cynnwys defnydd cyson o brofion safonol.

Drwy adroddiadau a chyfarfodydd tymhorol, mae rhieni'n derbyn gwybodaeth glir am gyflawniadau eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles y disgyblion ag annog eu hymglymiad yn eu hysgol a'r gymuned ehangach. Caiff disgyblion eu hannog i fwyta'n iachus a thrwy weithgareddau corfforol a chlybiau ar ôl ysgol, cânt amrywiaeth eang o gyfleoedd i gynyddu lefelau eu ffitrwydd ac iechyd.

Mae'r ethos cynhwysol a'r profiadau niferus yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn llwyddiannus. Mae cwrteisi a pharch yn rhinweddau amlwg yn yr ysgol ac maent yn cael eu meithrin yn ddyddiol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn nodwedd gref. Mae elfen o ragoriaeth yn y modd mae'r staff yn darparu ar gyfer disgyblion gydag anghenion dwys. Enghraifft effeithiol iawn o hyn yw'r ffordd y mae athrawon a staff cymorth yr ysgol a'r ysgol arbennig yn arsylwi ei gilydd er mwyn rhannu arfer dda i sicrhau dilyniant i ddisgyblion sydd yn mynd i'r ddau le.

Mae pob disgybl yn manteisio ar holl feysydd y cwricwlwm ac mae'r staff yn flaengar wrth weithio'n agos gyda llawer o asiantaethau allanol yn rheolaidd i roi'r cymorth cywir i'r disgyblion hyn. Caiff anghenion disgyblion eu hadnabod yn gynnar ac mae cynlluniau addysg unigol o ansawdd da ar eu cyfer. Cânt eu hadolygu'n gyson mewn ymgynghoriad a'r rhieni, y disgybl, a'r asiantaethau arbenigol priodol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae sylw a phwyslais amlwg ar greu amgylchedd diogel a gofalgar, ac fe welir hyn yn natur glos a chymdeithasol yr ysgol.

Llwydda'r ysgol i weithredu fel cymuned gynhwysol iawn lle mae pawb yn cael ei barchu'n dda. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod a dathlu amrywiaeth. Mae cyfle cyfartal i bawb.

Mae digon o adnoddau da sy'n gweddu'n briodol i anghenion y disgyblion, a gwneir defnydd effeithiol ohonynt. Mae'r amgylchedd dysgu ym mhob dosbarth yn ddeniadol gydag arddangosfeydd lliwgar sy'n dangos parch at waith y disgyblion. Mae'r adeilad a thir yr ysgol yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn cael eu cynnal yn dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus i'r staff, y llywodraethwyr a'r disgyblion. Mae ganddi adnabyddiaeth dda o'r ysgol ac mae'n cynnig cyfeiriad strategol clir i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae yma ethos cadarnhaol sy'n canolbwyntio ar godi safonau.

Yn dilyn cyfnod o ansicrwydd a newid yn staffio'r ysgol, llwyddwyd mewn amser byr i roi strategaethau ar waith sydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau a safonau'r disgyblion. Mae cynnydd cyflym mewn llawer o feysydd pwysig yn enwedig wrth sicrhau cefnogaeth amlwg y staff a'r rhieni. Er hyn, nid yw'r holl strategaethau wedi cael digon o effaith ar rai agweddau o gyflawniad disgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r ysgol yn gymuned drefnus ac mae'r holl staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm. Mae ganddynt ddisgrifiadau swyddi clir a dealltwriaeth gadarn o'u rôl a'u cyfrifoldebau.

Mae'r llywodraethwyr yn ymgymryd â'u rolau a'u cyfrifoldebau yn gydwybodol ac mae ganddynt ddiddordeb cryf ym mywyd yr ysgol. Maent yn mynychu hyfforddiant priodol ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o berfformiad yr ysgol o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Mae hyn wedi cryfhau eu rôl fel cyfeillion beirniadol i herio'r ysgol ynglŷn â safonau.

Mae mentrau'r ysgol i gwrdd â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn datblygu'n effeithiol. Rhoddir sylw blaenllaw i ddatblygiad yr iaith Gymraeg, lles disgyblion a gweithredir y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gweithdrefnau hunan arfarnu yn datblygu yn briodol. Mae holl aelodau'r staff yn chwarae rhan weithredol yn yr arfarnu gan ystyried sawl ffynhonnell o dystiolaeth. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i fynegi barn am yr ysgol a gwnânt hyn gydag aeddfedrwydd amlwg. Nid yw cyfraniad y rhieni a'r llywodraethwyr at y prosesau hunan arfarnu wedi ei ddatblygu cystal.

Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn cyfleu darlun dilys o sefyllfa gyfredol yr ysgol. Mae tueddiad yn yr adroddiad i ddisgrifio yn hytrach na bod yn arfarnol.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn nodi blaenoriaethau priodol ac wedi ei ffocysu'n briodol ar wella safonau. Er hyn, nid yw'r targedau'n ddigon meintiol, ac o ganlyniad, nid yw'n hawdd i'r llywodraethwyr adolygu'r cynnydd. Nid oes cyswllt digon clir rhwng yr hunan arfarnu, blaenoriaethau'r cynllun datblygu a thargedau ar gyfer gwella disgyblion cyfnod allweddol 2.

Mae'r ysgol yn datblygu'n briodol yn gymuned ddysgu broffesiynol. Mae cyfleoedd rheolaidd a phriodol i alluogi'r holl staff i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth. Enghraifft dda iawn o hyn yw'r cydweithio effeithiol gyda staff yr ysgol arbennig leol i sicrhau'r ddarpariaeth orau ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dwys.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid i gefnogi lles a chyflawniad disgyblion. Mae partneriaeth agored a chlos yn bodoli rhwng y rhieni â'r ysgol. Maent yn gwerthfawrogi'r ymdeimlad o bartneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol sy'n eu galluogi i gyfrannu'n llawn yn natblygiad eu plant.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol i gwrdd ag anghenion penodol unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Enghraifft dda o hyn yw'r cydweithio agos gyda'r uned iaith i sicrhau fod hwyr ddyfodiaid yn datblygu eu medrau cyfathrebu'n effeithiol.

Mae partneriaethau da gyda nifer o asiantaethau'r awdurdod lleol sy'n cael effaith bositif ar ddatblygiad lles a chyrhaeddiad disgyblion. Mae hyn yn hynod effeithiol wrth gefnogi disgyblion ag anghenion dwys ac yn nodwedd gref o'r ddarpariaeth.

Mae cysylltiadau cryf â'r gymuned leol, gydag aelodau o'r gymdeithas yn dod i mewn i rannu profiadau gyda'r disgyblion. Mae cysylltiadau gyda busnesau lleol yn hybu ymwybyddiaeth disgyblion o fyd gwaith yn effeithiol. Mae'r cysylltiadau agos gyda'r cylch meithrin lleol yn sicrhau fod y plant yn ymgartrefu'n hwylus yn yr ysgol. Mae cynlluniau trosglwyddo a sefydlodd y clwstwr ysgolion yn galluogi disgyblion hŷn i gael eu paratoi'n briodol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae trefniadau effeithiol i safoni a chymedroli asesiadau athrawon diwedd cyfnod allweddol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae digon o staff addysgu a staff cynorthwyol gan yr ysgol. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd. Caiff staff cymorth eu defnyddio'n hynod o effeithiol ac maent yn gweithio'n effeithiol ochr yn ochr ag athrawon yn yr ystafell ddosbarth.

Mae staffio ac adnoddau ariannol yn cael eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi`r dysgu a gwelliannau ar draws yr ysgol. Mae'r corff llywodraethol yn monitro gwariant yn ofalus i sicrhau ei fod yn parhau o fewn y gyllideb. Mae penderfyniadau gwariant yn cyfateb i'r blaenoriaethau ar gyfer datblygiad yr ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Gan mai nifer cymharol fach o ddisgyblion sydd yn yr ysgol, rhaid trin y data yn ofalus gan fod canlyniad un plentyn yn cyfri am ganran uchel o'r garfan ym mhob blwyddyn.

Yn asesiadau diwedd cyfnod allweddol 1 yn 2011, cyflawnodd pob disgybl y lefel disgwyliedig (lefel 2) yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae hyn gyda'r uchaf yn y teulu. Dros gyfnod o bedair blynedd, heblaw am 2011, roedd canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y tri phwnc wedi bod yn is na chyfartaleddau Cymru a'r teulu o ysgolion tebyg. Yn ystod yr un cyfnod, heblaw am 2011, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig mewn darllen ac ysgrifennu Cymraeg hefyd wedi bod yn is na chyfartaleddau Cymru a'r teulu.

O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, roedd perfformiad yr ysgol yn 2011 ymhlith y 25% uchaf yng Nghymru. Roedd ymhlith y 25% isaf yn y tair blynedd flaenorol.

Dros gyfnod o bedair blynedd mae'r ganran sy'n cyflawni'r lefel uwch (lefel3), er yn amrywio, yn tueddu i fod yn is na'r teulu a chyfartaledd Cymru. Nid oes yr un disgybl wedi cyflawni'r lefel uwch yn y Gymraeg na mathemateg yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r canran disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad wedi amrywio dros gyfnod o bedair blynedd. Yn 2011, roedd y canran yr isaf yn y teulu. Mae wedi bod yn uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru mewn dwy o'r tair blynedd flaenorol. Yn ystod yr un cyfnod, heblaw am 2011, roedd canran y disgyblion gyflawnodd y lefel disgwyliedig mewn darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn uwch na chyfartaleddau Cymru a'r teulu.

Yn 2011, roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 25% isaf o ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl. Roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 50% uchaf yn y tair blynedd flaenorol ac yn y 25% uchaf mewn dwy ohonynt.

Heblaw am fathemateg yn 2008 a gwyddoniaeth yn 2009, roedd canran y disgyblion gyflawnodd lefel 5 neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn gyson is na chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru yn y pedwar pwnc dros gyfnod o bedair blynedd.

Nid oes patrwm cyson o dangyflawniad bechgyn o gymharu â'r merched yn y ddau gyfnod allweddol.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd 15 o holiaduron wedi eu llenwi gan rieni/gofalwyr. Mae lefelau bodlonrwydd rhieni yn uchel, ac yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd.

Mae'r rhieni i gyd yn cytuno bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol a bod cymorth ychwanegol priodol ar gael yn ôl yr angen. Nododd y cyfan o'r rhieni eu bod yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol a'u bod yn cytuno'n bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae bron pob un yn cytuno fod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn sy'n cael ei ddysgu yn yr ysgol a'u bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â chodi unrhyw fater.

Mae'r rhan fwyaf yn cytuno eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn a bod amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys teithiau ac ymweliadau.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Llenwyd yr holiaduron dysgwyr gan 15 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Mae'r ymatebion yn gadarnhaol iawn, ac yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd.

Mae'r holl ddisgyblion yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod yr athrawon yn eu helpu i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi yn achos gofid neu i holi am gyngor. Maent i gyd yn cytuno bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach. Er hyn mae un disgybl yn dweud nad yw gwaith cartref yn ei helpu i ddeall a gwneud ei waith. Mae tri disgybl o'r farn nad yw bron pob plentyn yn ymddwyn yn dda amser cinio ac amser chwarae.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Buddug Bates | Arolygydd Tîm |
| Kevin Davies | Arolygydd Lleyg |
| Eifion Watkins | Arolygydd Cymheiriaid |
| Annwen Hughes | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

## Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.  Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion.  Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.